

## **Grŵp Trawsbleidiol ar Faterion Pobl Fyddar | Cofnodion**

*Dydd Iau 3 Tachwedd 2022, 14:00 - Trwy Zoom*

### **Yn bresennol:**

**Mark Isherwood AS** - Cadeirydd

**Joel James AS**

**Callum Mclean** - Ysgrifenyddiaeth, Cyngor Cymru i Bobl Fyddar

**Alison Bryan**

**Angharad Morris**

**Annie Morris** - Rheolwr Perthynas Awdioleg, Specsavers

**Dawn Sommerlad** - Addysgwr Pobl Fyddar / Ymddiriedolwr y Ganolfan Arwyddo Golwg Sain (COS)

**George Baldwin** - Swyddog Polisi ac Ymgyrchu, y Gymdeithas Genedlaethol i Blant Byddar (NDCS)

**Gordon Harrison** - Pennaeth Datblygiad Proffesiynol, Specsavers

**Jane Wild** - Awdioleg BIP BC

**Dydd Ioan** - Awdioleg BIP BC

**Louise Sweeney** - Prif Swyddog Gweithredol, Cyngor Cymru i Bobl Fyddar

**Michael Britland** - Rheolwr Hyfforddi a Datblygu - Gwasanaethau Hearing Link

**Nigel Williams** - Grŵp Cymorth Mewnblaniad yn y Cochlea De Cymru

**Rob Wilks** - Darlithydd, Prifysgol Caerdydd

**Sarah Angove** - Cymdeithas Brydeinig Athrawon Pobl Fyddar Cymru (BATOD)

**Sarah Thomas** - COS

**Sophie Brownlee** - Cyfarwyddwr Cyfrifon, Specsavers

**Stephen Brattan-Wilson** - Cynrychiolydd Cymdeithas Dehonglwyr Iaith Arwyddion/Dehonglwr Iaith Arwyddion Prydain

**Stephen McAndrew** - Cyfarwyddwr Gwasanaethau GIG, Specsavers

### **Ymddiheuriadau**

**Anthony Evans** - Dehonglydd Iaith Arwyddion Prydain / aelod o'r NRCPD

**Cathie Robins Talbot**

**Hannah Winters** - Awdioleg, BIP Caerdydd a'r Fro

**Jacqui Bond** - Gweithiwr Cymdeithasol

**Julia Terry** - Prifysgol Abertawe

**Paul Chappell** - Rheolwr Lleoliadau Cymru, Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol Pobl Fyddar a Thrw eu Clyw (RNID)

**Peredur Owen Griffiths AS**

**Rhun ap Iorwerth AS**

**Robin Ash** - Cydgysylltydd Cydraddoldeb a Hawliau Iaith Arwyddion Prydain, Cymdeithas Pobl Fyddar Prydain

**Stuart Parkinson** - Is-Gadeirydd/Ymchwilydd a Swyddog Datblygu, Cymdeithas Athrawon ac Aseswyr Iaith Arwyddion Prydain (ABSLTA)

### **Cymorth cyfathrebu**

**Rachel Williams** - Dehonglydd Iaith Arwyddion Prydain

**Liana Lloyd** - Dehonglydd Iaith Arwyddion Prydain

**Hilary Maclean** - Adroddwr Llais i Destun

## Cyflwyniad ac ymddiheuriadau

Croesawodd y **Cadeirydd** bawb i'r cyfarfod.

### Materion sy'n codi

Trafododd **Callum** y llythyrau a anfonwyd at adrannau Awdioleg yn dilyn un o gyfarfodydd y grŵp ynghylch rhoi Fframwaith Gweithredu Cymru ar waith ar gyfer pobl F/fyddar neu bobl sy'n colli eu clyw, o gofio ein bod bellach wedi cael ymatebion gan Fyrddau Iechyd Hywel Dda, Cwm Taf ac Aneurin Bevan, a bod yr ymatebion hyn wedi'u rhannu â'r grŵp pan ddaethant i law.

### Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol 2021/22 a dosbarthu'r Adroddiad Blynyddol

Cafodd Mark ei enwebu gan **Joel James** fel y Cadeirydd nesaf, a chafodd y cynnig hwn ei eilio gan **John Day**, o gofio mai Joel oedd yr unig Aelod arall o'r Senedd a oedd yn bresennol. Ni chafwyd unrhyw enwebiadau eraill.

**Callum** oedd yr unig enwebai ar gyfer Ysgrifennydd, ac fe wnaed y cynnig gan **George Baldwin**. Cafodd yr enwebiad hwn ei eilio gan **Nigel Williams** a **John Day** yn y drefn honno.

### *Camau gweithredu yn deillio o eitemau ar yr agenda*

- *Dosbarthu adroddiad y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol i'r Aelodau*

### Awdioleg Gofal Sylfaenol

Trafododd **John** y system arfaethedig yng Nghymru, lle mae Awdiolegwyr ymarfer uwch yn darparu gofal mewn Lleoliadau Gofal Sylfaenol fel y pwynt cyswllt cyntaf. Yn hytrach na gweld meddyg teulu ar y dechrau, bydd cleifion yn gweld Awdiolegydd, ac mae John yn dymuno cyflwyno'r system hon ym mhob ardal lle nid dyma'r broses ar hyn o bryd. Ar hyn o bryd, mae 50 y cant o leoliadau yng Nghymru yn dilyn y weithdrefn hon. Hefyd, nododd John ei fod yn gwerthfawrogi'r ffaith bod y grŵp wedi anfon llythyrau at y pedwar Bwrdd Iechyd yn tynnu sylw at hyn. Argymhellodd **John** ein bod yn dod yn ôl at y mater hwn mewn cyfarfod yn y dyfodol i weld beth sydd wedi newid neu a oes angen i'r grŵp gymryd camau pellach, oherwydd y bydd angen amser ar y Byrddau Iechyd i roi'r newidiadau hyn ar waith fel cam cyntaf.

### *Camau gweithredu yn deillio o eitemau ar yr agenda*

- *Nodi Awdioleg Gofal Sylfaenol fel eitem ar yr agenda ar gyfer ail gyfarfod 2023*

### Tystiolaeth gan Specsavers

Rhannodd **Stephen M** gyflwyniad â'r grŵp yn manylu ar wasanaethau colli clyw Specsavers, yn ogystal ag anghenion oedolion sy'n wynebu colli clyw drwy gyflyrau sy'n gysylltiedig ag oedran.

Nodwyd bod gwasanaethau Specsavers ar gael ar y stryd fawr, sy'n gallu lleddfu'r pwysau ar adrannau damweiniau ac achosion brys a meddygfeydd meddygon teulu. Hefyd, soniwyd bod Specsavers yn darparu gwasanaethau colli clyw yn Lloegr fel contractwyr Gofal Sylfaenol.

Rhannwyd ystadegau ynghylch amseroedd aros cynyddol ar gyfer gwasanaethau Awdioleg yn ystod blynyddoedd diweddar, yn ogystal â'r nifer uwch o bobl hŷn sy'n colli eu clyw.

Ychwanegodd **Annie** fod Specsavers yn cynnig profion cwyr a phrofion clyw yn eu siopau yn ogystal â chynlluniau rheoli unigol i gleifion.

Trafododd yr aelodau o Specsavers, yn ogystal â swyddogion y GIG ac Athrawon Pobl Fyddar, rinweddau'r model cymdeithasol o anabledd o gymharu â'r model meddygol. Cwestiynodd **Alison** y defnydd o'r term "y gellir ei gywiro" a ddefnyddiwyd yn y cyflwyniad wrth gyfeirio at golli clyw, ac roedd **Rob** yn cytuno â'r pwynt.

Ymatebodd **Stephen M** gan nodi bod rôl Specsavers yn y maes hwn wedi'i diffinio mewn ffordd gul ac nad yw'n adlewyrchu anghenion pobl Fyddar yn benodol gan eu bod yn canolbwyntio'n bennaf ar oedolion sy'n colli eu clyw oherwydd oedran. Maent yn ymwybodol bod eu model yn canolbwyntio ar hyn. Hefyd, gwahoddodd unrhyw aelod o'r grŵp i gysylltu ag ef dros e-bost i godi unrhyw enghreifftiau penodol neu bryderon ynghylch gwasanaeth Awdiolegwyr Specsavers.

### Diwygiadau ym maes anghenion dysgu ychwanegol a safonau cyfathrebu mewn gofal iechyd

Trafododd **George** y diwygiadau ym maes ADY, gan nodi yn gyntaf fod nifer y dysgwyr Byddar mewn ysgol sydd wedi'u cofrestru ag anghenion addysgol arbennig neu sy'n cael cymorth ar gyfer anghenion dysgu ychwanegol wedi gostwng yn 2022. Mae'r NDCS wedi nodi nifer o resymau am y duedd hon, ac ychwanegodd fod Pwyllgor addysg y Senedd hefyd wedi cysylltu â nhw oherwydd pryderon am y nifer isel. Dywedodd George y byddai ef a'r NDCS yn ymchwilio i'r mater ac o bosibl yn gofyn i'r Cadeirydd gymryd camau penodol yn ôl yr angen unwaith y bydd George wedi cysylltu ag ef yn uniongyrchol gyda'r wybodaeth ddiweddaraf.

Rhoddodd **George** wybod i'r grŵp am ymgyrch sydd wedi'i harwain gan RNIB, RNID a'r NDCS ynghylch Safonau Cymru Gyfan ar gyfer Darparu Gwybodaeth Hygyrch i Bobl â Nam ar eu Synhwyrau, oherwydd nid oes unrhyw fecanweithiau atebolrwydd na monitro ar waith i olrhain cynnydd a thynnu sylw at feysydd sy'n peri pryder. Nododd George nad yw'r grwpiau sy'n rhan o'r ymgyrch o'r farn fod ymateb Llywodraeth Cymru yn foddhaol, a bod yr ansicrwydd ynghylch diffyg y diffyg mecanweithiau yn parhau. Nododd y Cadeirydd ei fod eisoes wedi cysylltu â'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i godi'r mater hwn, a'i fod wedi rhannu ei hymateb ag RNIB Cymru ac RNID Cymru ac wedi cael ateb ganddynt yn nodi'r pwyntiau yr hoffent iddo fynd ar eu trywydd gyda'r Gweinidog. Dywedodd y Cadeirydd ei fod yn chwilio am gyfle i godi'r mater hwn yn y Siambr pan fo modd.

### Addysg pobl Fyddar yn yr Alban a Chymru ([Blog, adroddiad a chrynodeb ar gael yma](#))

Cyflwynodd **Rob** ei hun cyn trafod y gymhariaeth rhwng y Ddeddf Iaith Arwyddion Prydain yn yr Alban, a'i heffaith ar fydd addysg, a'r sefyllfa yng Nghymru. Ychwanegodd ei fod wedi bod yn gweithio gyda Phrifysgol Caeredin yn ogystal â gweision sifil. Mae'r gwaith hwn wedi cynnwys cynnal cyfweiliadau a gwneud gwaith ymchwil dros gyfnod o dri mis, gan ymchwilio i'r darpariaethau sydd ar gael a chyflwyno'r canfyddiadau yn y blog a nodir uchod, yn ogystal â chanfod sut mae Iaith Arwyddion Prydain yn cael ei defnyddio mewn ysgolion a'r ffordd yr ymdrinnir â hi fel iaith. Mae ei waith hefyd wedi canolbwyntio ar y model meddygol o anabledd o gymharu â'r model cymdeithasol a'r ffordd y mae hyn yn effeithio ar addysg.

Ychwanegodd **Sarah** fod llawer o Athrawon Pobl Fyddar yn ddefnyddwyr Iaith Arwyddion Prydain fel iaith gyntaf neu ail iaith, a bod ganddynt lefel uchel o sgiliau yn yr iaith hon. Ychwanegodd fod hyn yn groes i rai ffigurau a nodwyd gan Rob mewn perthynas â chymwysterau Athrawon Pobl Fyddar o ran Iaith Arwyddion Prydain a sut mae'r gofynion am y cymwysterau hyn yn cael eu gorfodi. Aeth ymlaen i argymhell fod Rob yn cysylltu â BATOD Cymru i drafod y mater ymhellach ac, o bosibl, i ddarparu rhagor o ystadegau.

*Camau gweithredu yn deillio o eitemau ar yr agenda:*

- *Llythyr at Jane Hutt a Jeremy Miles ynghylch y ddarpariaeth o ran Iaith Arwyddion Prydain/adroddiad Rob, gan wahodd ymateb - ar ran y grŵp, gyda chymorth drafftio gan Rob*

*\*Yr eitem olaf ar yr agenda oedd cwestiwn gan Anthony Evans a atebwyd dros e-bost cyn i'r cyfarfod ddechrau ac a rannwyd â'r grŵp. Ni chafodd y mater ei drafod yn helaeth yn ystod y cyfarfod ei hun oherwydd diffyg amser.*

*Daeth y cyfarfod i ben ar ôl trafod y pwyntiau hyn.*